**Pwyllgor Rheoli Datblygu**

**29 Ionawr 2025**

Yn Bresennol
Dr M Havard (Cadeirydd)
Cynghorydd M Bowen, Cynghorydd D Clements, Cynghorydd T Evans, Cynghorydd C George, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd Dr SL Hancock, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Dr RM Plummer, Cynghorydd B Price. Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, Cynghorydd V Thomas, Cynghorydd A Tinley, Cynghorydd M Wiggins a'r Cynghorydd C Williams.

Swyddogion yn bresennol
Mr C Felgate (Cyfreithiwr), Mrs S Morris (Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu), Ms K Attrill, (Rheolwr Rheoli Datblygu), Ms B Gledhill (Swyddog Cynllunio), Mrs C Llewellyn (Cofnodion)

[Cyfarfod rhithiol 10.00am – 11.20am;
11.30am - 12.30pm]

**1. Ymddiheuriadau**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb wrth Mr M Kent (Swyddog Monitro), Mrs S Hoss a Mrs J James.

2. **Datgelu buddiant**

Datgelodd yr Aelod(au)/Swyddog(ion) canlynol yn y cais (ceisiadau) a/neu'r mater (ion) y cyfeirir atyn nhw isod:

| **Cais a Chyfeirnod** | **Aelod(au)/Swyddog(ion)** | **Gweithred** |
|---|---|---|
| Datganiad Cyffredinol | Dr R Plummer | Aros yn y cyfarfod a chwarae rhan lawn yn y trafod a'r pleidleisio |

**3. Cofnodion**

Cafodd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2024 a 20 Ionawr 2025 eu cyflwyno i'w cadarnhau a'u dilysu.

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Hancock, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Clements, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr. Yn dilyn cynnig gan Dr Havard, wedi'i eilio gan y Cynghorydd James, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr.

4. **Dyletswyddau'r Aelodau wrth Benderfynu Ceisiadau**

Roedd adroddiad y Cyfreithiwr yn crynhoi swyddogaeth y Pwyllgor oddi fewn i'r gyfundrefn gynllunio, gyda phwyslais penodol ar amcanion a dyletswydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd yn mynd yn ei flaen i amlinellu pwrpas y gyfundrefn gynllunio ac ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu, ac ychwanegodd y Cyfreithiwr bod angen rhoi ystyriaeth hefyd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol - Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ar 24 Chwefror 2021 yn ogystal â'i Gynllun Datblygu Lleol 2 ei hun. Roedd yr Adroddiad hefyd yn nodi bod gan yr Awdurdod ddyletswydd hefyd i gyflawni datblygiad cynaliadwy, ystyriaethau ecolegol oedd yn cynnwys swyddogaeth Deddf Amgylchedd Cymru 2016, ystyriaethau hawliau dynol, canllawiau'r Awdurdod i aelodau ynghylch penderfyniadau yn y Pwyllgor, a hefyd yn gosod allan rhai amgylchiadau lle gellid gosod costau yn erbyn yr Awdurdod mewn apêl. Ychwanegodd Mr Felgate yn y cyfarfod nad oedd yr adroddiad yn crybwyll bod penderfyniadau'r Awdurdod yn agored i gael eu scrwtineiddio ac y medran nhw fod yn destun adolygiad barnwrol a'i bod yn bwysig felly eu bod yn gyfreithiol gywir. Gan fod y cyfarfod yn cael ei gynnal ar-lein, atgoffwyd yr Aelodau ei bod yn ofynnol iddyn nhw fod yn bresennol gydol y trafodaethau ar unrhyw gais er mwyn bod yn gymwys i fwrw pleidlais.

**Nodwyd.**

5. **Hawl i siarad yn y Pwyllgor**

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Cadeirydd bod rhybuddion priodol (cyn y dyddiad sydd wedi ei nodi) wedi dod i law oddi wrth bartïon a oedd yn dymuno defnyddio eu hawl i siarad yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw. Yn unol â phenderfyniad Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2011, wedi'i ddiwygio 16 Mehefin 2021, rhoddir yr hawl i siaradwyr i annerch am bum munud oni bai eu bod wedi siarad ar yr un cais cynt pan roddir tri munud iddyn nhw i gyflwyno gwybodaeth o'r newydd. *(mae'r partïon oedd â diddordeb wedi'u rhestru isod gyferbyn â'u cais (ceisiadau) penodol, ac yn y drefn y buon nhw'n cyfarch y Pwyllgor):*

| **Rhif cyfeirnod** | **Cynnig** | **Siaradwr** |
|---|---|---|
| NP/15/0417/FUL<br>Cofnod 6(a) cyfeir | Cadw'r adeilad amaethyddol (Adeiledd 13) a'r man gadael peiriannau fferm – Trewern, Felindre Farchog | Mr Wyn Harries, Asiant |
| NP/24/0596/FUL<br>Cofnod 6(c) cyfeir | Caniatáu llety yn yr adeilad a ganiateir, ynghyd â chyswllt i'r annedd | Mr Wyn Harries, Asiant |

bresennol – Lleine,
Nanhyfer

6. **Adroddiad Ceisiadau Cynllunio**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau a adroddwyd ar lafar ar y diwrnod ac sydd wedi'u cofnodi isod. Penderfynodd y Pwyllgor y ceisiadau yn y modd canlynol (*nodir y penderfyniad ynghylch pob un yn dilyn y manylion a nodir am y cais perthnasol*):

(a) Cyfeirnod: NP/15/0417/FUL
Cynnig: Cadw'r adeilad amaethyddol (Adeiledd 13) a'r man gadael peiriannau fferm
Lleoliad: Trewern, Felindre Farchog, Crymych, Sir Benfro, SA41 3XE

Adroddwyd bod y cais hwn yn gais ôl-weithredol ar gyfer adeilad amaethyddol (adeiledd 13) a chaniatâd ôl-weithredol ar gyfer man gadael peiriannau fferm ym mhen gorllewinol trefniadau'r fferm.

Ers cofrestru'r cais hwn yn wreiddiol yn 2015, mae deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ynghylch prosesu ceisiadau o bwys wedi newid, ac mae'r ymgeiswyr ers hynny wedi darparu adroddiad PAC (ymgynghoriad cais cyhoeddus) sydd wedi ei ymgynghori'n gyhoeddus cyn ail-gyflwyno'r cais hwn. Roedd y llinell goch hefyd wedi'i hymestyn ers y gwreiddiol, i gymryd ystyriaeth o estyniad y man gadael peiriannau ym mhen gorllewinol y safle, ond nodwyd yn y cyfarfod bod y llinell a ddangoswyd ar y cynllun oddi fewn i'r pecyn adroddiad yn anghywir, ac fe ddangoswyd y fersiwn gywir ar y sgrin. Y dyddiad cofrestru wedi'i ddiweddaru ar gyfer y cais hwn gyda'r wybodaeth newydd wedi'i ddarparu oedd 23 Hydref 2024.

Nodwyd bod yna hanes cynllunio cymhleth i'r safle fel roedd wedi'i osod allan yn yr adroddiad. Roedd y cynnig yn rhan o gasgliad ehangach o adeiladau, a'r diweddaraf i gael ei reoleiddio o'r rhai hynny sydd wedi'u cynnwys oddi fewn i'r Apêl Gorfodaeth Cynllunio bresennol, sy'n ganlyniad Rhybudd Gorfodaeth gafodd ei weini yn 2018, ac yn dal heb ei benderfynu gan PEDW (Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru). Roedd rhai o'r adeiladau oedd yn ffurfio rhan o'r cais gwreiddiol yn y cyfamser wedi cael Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon. Nododd y swyddog pe bai'r cais yn cael ei gymeradwyo'r diwrnod hwnnw fe fyddai'r apêl wedyn yn peidio.

Roedd yr Aelodau wedi bod yn gweld y safle yn ddiweddar fel rhan o Archwiliad Safle'r Pwyllgor Rheoli Datblygu (cofnod cyfeir 3), a hynny o'r man gweld pwysig ym Mhentre' Ifan er mwyn asesu ei effaith ar y tirlun,

ac fe ddangoswyd delweddau drôn wedi'u cymryd o'r fan honno gerbron y Pwyllgor.

Nodwyd bod agosrwydd y safle i SoDdGA Tŷ Canol ac Ardal Cadwraeth Arbennig Coetiroedd Gogledd Sir Benfro (ACA), a oedd yn llawn hen goed derw anfudol yn cynnwys amrywiaeth eithriadol o gen epiffytig, yn golygu bod cynigion i gynyddu nifer y fuches yn gofyn am asesiad priodol o dan y Rheoliadau Cynefinoedd, er mwyn asesu effaith posib. Roedd dyluniad a safle'r adeilad yn cael eu hystyried yn dderbyniol oddi fewn i'r adeiladau ehangach. Yn amodol ar osod amodau yn ymwneud â thirweddu a rheoli'r mwyafswm nifer y fuches odro, i sicrhau nad oedd effaith amonia posib ychwanegol ar yr ACA, roedd y cynnig yn cael ei ystyried yn dderbyniol, a'i fod yn cydymffurfio â gofynion polisïau cynllunio perthnasol Lleol a Chenedlaethol. Roedd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) wedi'i gytuno gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac o'r herwydd yr argymhelliad oedd cymeradwyo'r cais gydag amodau.

Eglurodd y Cyfreithiwr bod paragraff 2.4.7 yr adroddiad yn nodi y byddai gosod amod ynghylch rhif y fuches yn debygol o fod yn dderbyniol unwaith y byddai Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi'i gwblhau. Cadarnhaodd y swyddogion mai casgliad yr asesiad priodol oedd na fyddai'r cais yn cael unrhyw effaith ar gywirdeb ACA ac roedd CNC wedi cytuno â'r casgliad hwnnw.

Nodwyd yn y cyfarfod bod yna gamgymeriad teipio o ran amod chwech a ddylai gyfeirio at Adeilad 14 yn hytrach nag Adeilad 1. Roedd yr amod yn gofyn am osod dalenni yn lle'r dalenni lled dryloyw er mwyn lleihau effaith golau'r adeilad. Gofynnid hefyd am osod amod draenio dŵr wyneb am nad oedd caniatâd SAB (Corff Cymeradwyo Cynllun Draenio Cynaliadwy) yn berthnasol. Yn olaf, cynghorodd y swyddog nad oedd yr adeilad cadw lloi dros dro, a nodwyd gan yr Aelodau pan oedden nhw ar ymweliad safle, wedi'i ddangos ar y cynlluniau, ac na fyddai'n cael ei awdurdodi fel rhan o'r cais cyfredol.

Nododd y Cadeirydd bod yr Asiant, Mr Wyn Harries, ar gael i ateb unrhyw gwestiynau ond oni bai am hynny nid oedd am annerch y Pwyllgor.

Roedd yr Aelodau yn pryderu ynghylch rheoleiddio rhif y fuches gan gynnwys cynlluniau trefniant wrth gefn pe bai yna gyfyngiadau ar symud o ganlyniad i TB, ac fe'u sicrhawyd y byddai yna ddatganiad statudol blynyddol y byddai'n bosib ei wirio trwy rifau tag ac ymweliadau gorfodaeth bob hyn a hyn. Roedd y swyddogion o'r farn fod geiriad amod pedwar yn ddigonol, gan ei fod yn ganlyniad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, ac wedi'i gymeradwyo gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Atgoffwyd yr Aelodau gan y Cyfreithiwr bod ffugio datganiad statudol yn fater difrifol.

Mynegodd nifer o Aelodau bryder ynghylch y cytiau lloi hefyd gyda'u cledrau metel cysylltiedig a phaneli concrid, roedden nhw wedi sylwi arnyn nhw yn eithaf amlwg yn y tirlun, a hefyd bod eu lleoli yn yr ardal gadael peiriannau o bosib yn cymryd lle parcio, ac yn arwain at ddefnyddio'r cae gerllaw ar gyfer storio.

Gofynnwyd i'r Asiant, Mr Wyn Harries i wneud sylw ac fe gynghorodd bod rhif y fuches wedi bod yn sefydlog ers pump i chwe blynedd, roedd rhif y gwartheg wedi ei leihau wrth i safonau lles godi. Ychwanegodd bod yna arwerthiannau TB y gellid eu defnyddio i symud gwartheg pe bai angen gwneud hynny. Nododd bod y lloi oll yn cael eu gwerthu ac aneirod yn cael eu prynu o ffynonellau eraill. Cadarnhaodd nad oedd bwriad i osod adeilad lle'r oedd y cytiau lloi wedi'u lleoli ar hyn o bryd, a nododd bod rhai o'r rhain wedi bod ar y safle ers nifer o flynyddoedd, ac y bydden nhw'n cael eu rhanguddio gan y tirweddu arfaethedig.

Awgrymodd y swyddogion y gellid gosod amod ychwanegol yn cyfyngu'r defnydd o'r ardal gadael peiriannau i'r hyn oedd wedi'i nodi yn y datganiad cynllunio h.y. nid ar gyfer da byw, a diwygio'r argymhelliad i un o gymeradwyo wedi'i ddirprwyo er mwyn caniatáu drafftio amod wedi'i eirio yn bwrpasol. Nodwyd y byddai yna drafod pellach gyda'r ymgeisydd/asiant ynghylch y cytiau lloi a allai gynnwys cyflwyno cais cynllunio pellach.

Cynigiwyd gan Dr Heath-Davies ac eiliwyd gan y Cynghorydd Clements y dylid neilltuo cymeradwyo'r cais i'r swyddogion er mwyn caniatáu drafftio amod ychwanegol i reoli'r defnydd o'r ardal gadael peiriannau. Roedd y cynnig hefyd yn cynnwys yr amodau oedd wedi'u gosod allan yn yr adroddiad gan gynnwys diwygiad i amod chwech i gyfeirio at adeilad 14, ac amod ychwanegol i ddelio â draenio cynaliadwy. Cafodd hwn ei gario.

**Penderfyniad: Neilltuo'r cais i'r swyddogion, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd, i roi caniatâd gydag amodau o ran cymeradwyo fel cais S73A, hyrwyddo bioamrywiaeth, tirweddu, cyfyngu rhif y fuches gan gyflwyno datganiad statudol blynyddol, goleuo, gwaredu paneli lled dryloyw o adeiladau 13 a 14, draenio a defnydd o'r ardal gadael peiriannau.**

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.20am a 11.30am]

(b) Cyfeirnod: NP/24/0567/FUL
Cynnig: Dymchwel yr adeilad toiledau/ cawodydd/ storfa/ golchdy presennol (gwaredu'r carafanau teithiol ar gyfer derbynfa) i safle arall y tu allan i'r parth llifogydd, ac ehangu'r safle drwy godi adeilad toiledau/ cawodydd/ storfa/ golchdy/ derbynfa a gwelliannau ecolegol a thirweddu (diwygiadau i'r cais NP/23/0534/FUL a wrthodwyd)
Lleoliad: Parc Gwyliau Arfordir Niwgwl, Maes Gwersylla Niwgwl, Niwgwl, Hwlffordd, Sir Benfro, SA62 6AS

Adroddwyd bod ystyriaeth o'r cais hwn wedi'i ohirio tan y cynhelir cyfarfod arall maes o law.

**Nodwyd.**

(c) Cyfeirnod: NP/24/0596/FUL
Cynnig: Caniatáu llety yn yr adeilad a ganiateir, ynghyd a chyswllt i'r annedd bresennol
Lleoliad: Lleine, Nanhyfer, Trefdraeth, Sir Benfro, SA42 0NY

Adroddwyd bod y cais hwn yn chwennych caniatâd i ganiatáu defnydd llety o ystafelloedd mewn adeilad y tu fas a oedd eisoes wedi cael caniatâd cynllunio o dan gais cyf NP/22/0571/FUL, ynghyd â chodi dolen gyswllt i'r annedd bresennol. Roedd y cais cyfredol yn dilyn gwrthod cais NP/24/0391/FUL, oedd hefyd yn gofyn am ganiatâd i ganiatáu defnydd llety yn yr adeilad oedd eisoes wedi ei ganiatáu, a chodi dolen gyswllt i'r prif adeilad.

Trefnwyd ymweliad safle ar 20 Ionawr 2025 gan Aelodau'r Pwyllgor, ac roedd cofnodion y cyfarfod hwnnw i'w canfod mewn rhan arall o'r agenda (Cofnod 3 cyfeir).

Ym marn y swyddogion roedd y cynnig o dan NP/24/0391/FUL yn cael ei ystyried yn or-ddatblygiad o'r annedd wreiddiol trwy gyflwyno llety ychwanegol a ffurf ar adeilad y tu hwnt a thros ben yr hyn oedd wedi'i ganiatáu o dan gais NP/22/057/FUL.

Fel rhan o'r cais cyfredol roedd y ddolen gyswllt arfaethedig i'r annedd wedi ei leihau o ran ei raddfa oddeutu 14m². Tra bo'r swyddogion yn cydnabod y byddai hyn yn lleihau'r ffurf adeilad arfaethedig, ystyrid y byddai'r ffurf adeilad ychwanegol yn dal i fod yn or-ddatblygiad o'r annedd bresennol, oedd eisoes wedi'i ymestyn yn sylweddol. Yr argymhelliad felly oedd gwrthod y cais cynllunio.

Yn y cyfarfod nododd y swyddog bod rhai camgymeriadau teipio ym mharagraff 2.1.9 o'r adroddiad - fe ddylid nodi mai maint y gofod llawr gwreiddiol ddylai fod $74m^2$ ynghyd â chwt glo ynghlwm fyddai'n rhoi cyfanswm o $86.9m^2$. $18.6m^2$ a ychwanegwyd yn 1994, nid $40.5m^2$, ond roedd y ffigyrau eraill yn gywir ac roedd yr ychwanegiadau oedd eisoes wedi'u gwneud yn cynrychioli cynnydd o dros 100% i'r llawr gwreiddiol oedd i'r bwthyn. Ystyriwyd bod hyn yn or-ddatblygiad ac yn dwysau'r defnydd preswyl. Roedd hyd cyfan yr adeiledd arfaethedig hefyd yn fater o bryder, gan fod yr estyniad yn llenwi'r bwlch sydd ar hyn o bryd yn gwahanu'r defnydd preswyl wrth y rhan a ddefnyddir at bwrpas amaethyddol/storio.

Wrth ymateb i rai cwestiynau a godwyd adeg yr archwiliad safle nodwyd nad oedd goleuo allanol yn rhan o'r cais ond yr un modd roedd swyddogion yn pryderu ynghylch y tebygolrwydd o olau'n arllwys o'r gwydro ar y trychiad gogledd orllewin yn codi o'r preswylio, yn hytrach na'r defnydd storio'r adeilad. Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod awgrymwyd y gellid ystyried defnyddio gwydr arlliw petai'r Pwyllgor yn penderfynu cymeradwyo'r cais. Eglurwyd hefyd y byddai gorffeniad cefn yr estyniad arfaethedig yn defnyddio cladio metel gwrymiog ynghyd â tho metel gwrymiog, tra byddai'r trychiad blaen yn efelychu'r prif eiddo. Yn olaf, cadarnhawyd nad oedd ymateb wedi ei dderbyn wrth y Swyddog Coed a Thirlun.

Anerchwyd y Pwyllgor wedyn gan yr asiant, Wyn Harries. Tynnodd sylw at leoliad gwledig, syml yr annedd bresennol gan ddweud nad oedd bwriad i newid hyn ond yn hytrach i ddiogelu a chadw'r lleoliad. Roedd yn fwriad i osod adeiladau yn lle'r adeiladau a godwyd wedi'r rhyfel, sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd fel ystafell storio/golchi/tipyn o bopeth, ac i newid y safle rhyw ychydig i osgoi'r bibell ddŵr. Roedd yr adeiladau wedi ffurfio rhan o dalar breswyl yr annedd er 2008, a heb eu defnyddio at amcanion amaethyddol ers degawdau. Roedd adeilad yn lle'r adeilad hwn eisoes wedi'i ganiatáu ac o dan y caniatâd hwnnw roedd yn bosib darllen llyfr yn yr adeilad ond ni chaniateid cysgu yno. Roedd o'r farn na fyddai'r estyniad, na fyddid prin yn sylwi arno, y gofynnid amdano, ddim yn effeithio ar y lleoliad, ac ar ôl derbyn cyngor cynllunio rhag blaen gan y swyddogion roedd maint y ddolen a graddfa'r gwydro wedi eu lleihau. Byddai'r deunyddiau arfaethedig yn sicrhau y byddai'r adeiladau yn cael eu gweld fel rhan o'r brif annedd. Nododd bod Cyfarwyddyd Cynllunio Ychwanegol yn gofyn i'r llety gwely gael ei gysylltu i'r brif annedd, yn hytrach na chreu uned ar wahân, a dyna beth y gofynnid amdano.

Wrth gyfeirio at y golygfeydd o'r eiddo nododd Mr Harries nad oedd y cynnig i'w weld o lwybr yr arfordir. Roedd yn bosib gweld Lleine o bellter o Bencastell i'r gogledd ddwyrain ond roedd o'r farn y byddai'n anodd gweld

y ddolen. Prin y byddai'n bosib ei weld o'r ffordd ac nid oedd yn credu y byddai'n newid cymeriad nac yn effeithio ar y brif annedd.

I grynhoi, daeth i'r casgliad bod caniatâd cynllunio yn bodoli i ailadeiladu a gosod adeiladau yn lle'r tai mas ac i wneud hynny yn gydymdeimladol, yn eilradd i'r brif annedd, a heb unrhyw effaith ar yr annedd na'r olygfa. Gofynnid am ganiatâd dim ond i gysylltu'r ddau adeilad a chaniatáu i'r adeilad allanol gael ei ddefnyddio fel dwy ystafell wely heb effeithio ar gymeriad Lleine na'r Parc Cenedlaethol. Ychwanegodd y byddai'r ymgeiswyr yn cytuno i waredu hawliau datblygu a ganiatawyd a fyddai'n rhoi hyd yn oed mwy o ddiogelwch i leoliad Lleine wrth wynebu'r dyfodol.

Nododd y Rheolwr Rheoli Datblygu y cyfeiriad at Pencastell ac ychwanegodd y byddai rhai Aelodau o'r Pwyllgor yn cofio caniatâd a roddwyd cynt i gais i ddymchwel yr eiddo am ei fod wedi ei or-ymestyn ac wedi colli ei gymeriad.

Gofynnwyd cwestiwn ynghylch mwyafswm maint estyniadau ac fe gynghorodd y swyddogion nad oedd terfynau wedi'u gosod ond ei fod yn fater o farn oddrychol. Tra cydnabyddid y gallai cymeriad adeiladau gael eu colli trwy gor-ddatblygu, roedd nifer o Aelodau yn mynegi cefnogaeth i'r cynnig, a fyddai'n darparu ychwanegiad deniadol a fyddai'n gwella'r safle, gan arwain at well effaith ar y llecyn. Nodwyd hefyd bod llawer o adeiladau yn newid dros amser, wrth i deuluoedd dyfu, a mynegwyd y farn bod y cynnig a oedd gerbron y Pwyllgor yn gydymdeimladol ac yn hyrwyddo'r tirlun.

Gofynnodd y Cyfreithiwr i'r swyddogion petai'r Aelodau yn cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y swyddogion p'un a fyddai'r drefn o Gyfnod o Oedi yn cael ei gyflwyno. Atebodd y Cyfarwyddwr y byddai penderfyniad o'r fath yn dibynnu ar ddehongli polisi - yn yr achos hwn dylunio a thirlun - yn hytrach na bod yn groes i bolisi, fyddai'r drefn ddim yn cael ei chyflwyno. Fodd bynnag, gofynnodd i'r Aelodau pe baen nhw'n cymeradwyo fe fyddai'r cais yn cael ei ddirprwyo i'r swyddogion i sicrhau y byddai amodau pwrpasol yn cael eu cynnwys.

Cafodd cynnig i neilltuo cymeradwyo'r cais i'r swyddogion ei roi gerbron gan Dr Plummer, a'i eilio gan Mr Jones. Y rhesymau a roddwyd dros fynd yn groes i argymhelliad y swyddogion oedd dehongliad gwahanol o'r polisi o ran dylunio ac na fyddai'r datblygiad yn niweidiol i nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Gwnaed cais i gynnwys amodau ynghylch rheoli goleuo a gwaredu hawliau datblygu wedi'u caniatáu ynghyd â pha bynnag amodau eraill fyddai'r swyddogion yn eu hystyried yn briodol. Pan gafodd ei roi i bleidlais fe'i cariwyd.

**Penderfyniad: Dirprwyo'r cais i swyddogion, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd, i roi caniatâd yn amodol ar gynnwys amodau yn ymwneud â rheoli goleuo a gwaredu hawliau datblygu wedi'u caniatáu ynghyd â pha bynnag amodau eraill fyddai'r swyddogion yn eu hystyried yn briodol.**

**7. Apeliadau**

Adroddodd yr Arweinydd Tîm Rheoli ynghylch deg o apeliadau (yn erbyn penderfyniadau cynllunio wnaed gan yr Awdurdod) oedd ar hyn o bryd wedi'u cofrestru gyda Llywodraeth Cymru, gan fanylu ynghylch ble roedd pob apêl wedi cyrraedd o ran y broses apelio.

**Nodwyd.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2025 heb eu diwygio. |